

2018 Rhif (Cy.)

2018 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A5
(Cylchfan yr Antelope, Gwynedd i
Gylchfan yr Anglesey Arms, Ynys
Môn) (Gwaharddiadau Traffig Dros
Dro a Therfyn Cyflymder 30 mya)
2018

The A5 Trunk Road (Antelope
Roundabout, Gwynedd to Anglesey
Arms Roundabout, Anglesey)
(Temporary Traffic Prohibitions
and 30 mph Speed Limit) Order
2018

Gwnaed 31 Mai 2018

Made 31 May 2018

Yn dod i rym 3 Mehefin 2018

Coming into force 3 June 2018

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A5 Llundain i Gaergybi, wedi eu bodloni y dylid gwahardd yr holl draffig a chyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd bod digwyddiad ffilmio yn cael ei gynnal ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A5 London to Holyhead Trunk Road, are satisfied that all traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited and restricted by reason of a filming event being held on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 16A o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrrd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 16A of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Cylchfan yr Antelope, Gwynedd i Gylchfan yr Anglesey Arms, Ynys Môn) (Gwaharddiadau Traffig Dros Dro a Therfyn Cyflymder 30 mya) 2018 a daw i rym ar 3 Mehefin 2018.

1. The title of this Order is the A5 Trunk Road (Antelope Roundabout, Gwynedd to Anglesey Arms Roundabout, Anglesey) (Temporary Traffic Prohibitions and 30 mph Speed Limit) Order 2018 and it comes into force on 3 June 2018.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn:

2. (1) In this Order:

ystyr "cerbyd esempt" ("exempted vehicle") yw:

"exempted vehicle" ("cerbyd esempt") means:

- (i) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys;

- (i) any vehicle being used by the emergency services;

(1) 1984 p.27. Mewnosodwyd adran 16A gan adran 1(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrrd (Digwyddiadau Arbennig) 1994. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 27), mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27. Section 16A was inserted by the Road Traffic Regulation (Special Events) Act 1994, section 1(1). By virtue of S.I.1999/672, article 2 and Schedule 1, and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.27), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

- (ii) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â gwaith ar y ffordd neu oleuadau neu arwyddion traffig neu waith brys i unrhyw garthffos neu i unrhyw brif bibell neu gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan, neu gyfarpar telathrebu yn y darn o'r ffordd o dan sylw, neu mewn unrhyw dir cyfagos;
- (iii) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan un neu ragor o swyddogion awdurdodedig y Digwyddiad Ffilmio i gefnogi'r digwyddiad ac am resymau diogelwch y digwyddiad;
- (iv) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—
 - (a) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
 - (b) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “y cyfnod cau” (“*closure period*”) yw'r cyfnod sy'n dechrau am 03:00 o'r gloch ar 3 Mehefin 2018 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw'r darn o gefnffordd yr A5 Llundain i Gaerdybi;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiadau a Chyfyngiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt a bennir yn erthygl 2. (1) (i), (ii) a (iii) fynd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal, na pheri i unrhyw feic pedal o'r

- (ii) any vehicle being used in connection with works to the road or lighting or traffic signs or emergency works to any sewer or to any main or apparatus for the supply of gas, water or electricity, or telecommunications in, or in any land adjacent to, a length of road concerned;
- (iii) any vehicle used by an authorised Filming Event official in support of and for safety reasons of the Event
- (iv) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—
 - (a) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
 - (b) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the length of the A5 London to Holyhead trunk road.

“closure period” (“*y cyfnod cau*”) means the period commencing at 03:00 hours on 3 June 2018 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

(2) Any reference in this Order to a numbered article is a reference to the article bearing that number in this Order.

Prohibitions and Restriction

3. No person shall, during the works period, drive or cause or permit any vehicle, other than an exempted vehicle specified in article 2. (1) (i), (ii) and (iii), to proceed in the length of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

4. No person shall, during the works period, ride or cause to be ridden any pedal cycle in the length of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

fath gael ei reidio ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

Atal Dros Dro

7. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darn perthnasol o'r gefnffordd wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 6 yn weithredol.

Cymhwys

8. (1) Nid fydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiad yn erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt a bennir yn erthygl 2. (1) (i) a (iv).

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

9. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am un mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

31 Mai 2018

Richard Morgan

Pennaeth Safonau Rheoli Asedau
Llywodraeth Cymru

ATODLEN 1

Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan yr Antelope yng Ngwynedd hyd at ei chyffordd â Chylchfan yr Anglesey Arms yn Ynys Môn.

5. No pedestrian shall, during the works period, proceed in the length of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

6. No person shall, during the works period, drive or cause or permit any vehicle to proceed at a speed exceeding 30 miles per hour in the length of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order.

Suspension

7. Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the relevant length of the trunk road are suspended during such times as the restriction specified in article 6 is in operation.

Application

8. (1) The prohibitions and restriction in articles 3, 4, 5 and 6 shall apply, only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limit imposed by this Order applies to an exempted vehicle specified in article 2. (1) (i) and (iv).

Duration of this Order

9. The maximum duration of this Order shall be one month.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the

31 May 2018

Richard Morgan

Head of Asset Management Standards
Welsh Government

SCHEDULE 1

Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists and Pedestrians

The length of the trunk road that extends from its junction with Antelope Roundabout in Gwynedd to its junction with Anglesey Arms Roundabout in Anglesey.

ATODLEN 2

Terfyn Cyflymder 30 mya Dros Dro

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan yr Antelope hyd at leoliad yr arwyddion sy'n dangos diwedd y parth 30 mya presennol ar ben deheuol Pont Menai yng Ngwynedd.

GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A5 (CYLCHFAN YR ANTELOPE, GWYNEDD I GYLCHFAN YR ANGLESEY ARMS, YNYS MÔN) (GWAHARDDIADAU TRAFFIG DROS DRO A THERFYN CYFLYMDER 30 MYA) 2018

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 16A o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn galluogi ffilmio ar gefnffordd yr A5 rhwng Cylchfan yr Antelope yng Ngwynedd a Chylchfan yr Anglesey Arms yn Ynys Môn.

Effaith y Gorchymyn fydd gwneud y canlynol dros dro:

- i. gwahardd pob cerbyd, beiciwr a cherddwr ac eithrio'r rheini a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys, at ddibenion ffilmio neu mewn cysylltiad â rheoli traffig rhag mynd ar y darn o'r A5 a bennir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Pennir y llwybrau eraill yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn hefyd.
- ii. gosod terfyn cyflymder 30 mya dros dro ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau yn weithredol yn ysbeidiol rhwng 03:00 o'r gloch a 19:00 o'r gloch ar 3 Mehefin 2018 am gyfnodau nad ydynt yn fwy nag 20 munud ar unrhyw un adeg.

Bydd y cyfyngiad terfyn cyflymder 30 mya yn parhau mewn grym drwy'r dydd. Bydd y trefnydd yn ailagor y ffordd i draffig yn gynt os bydd y ffilmio yn dod i ben cyn diwedd cyfnod y gwaharddiad.

Dim ond yn ystod y dyddiad a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o un mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r ffilmio oherwydd amgylchiadau nad oedd modd eu rhag-weld.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (Detholer: Ddeddfwriaeth/Is-ddeddfwriaeth/Offerynnau

SCHEDULE 2

Temporary 30 mph Speed Limit

The length of the trunk road that extends from its junction with Antelope Roundabout to the location of the existing 30 mph terminal signs at the southern end of the Menai Suspension Bridge in Gwynedd.

THE A5 TRUNK ROAD (ANTELOPE ROUNDABOUT, GWYNEDD TO ANGLESEY ARMS ROUNDABOUT, ANGLESEY) (TEMPORARY TRAFFIC PROHIBITIONS AND 30 MPH SPEED LIMIT) ORDER 2018

The Welsh Ministers have made an Order under section 16A of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to enable filming to be carried out on the A5 trunk road between Antelope Roundabout in Gwynedd and the Anglesey Arms Roundabout in Anglesey.

The effect of the Order will be to temporarily:

- i. prohibit all vehicles, cyclists and pedestrians other than those being used by the emergency services, being used for filming purposes and those in connection with traffic management from proceeding in the length of the A5 specified in Schedule 1 to this Notice. The alternative routes are also specified in Schedule 1 to this Notice.
- ii. impose a temporary 30 mph speed limit in the length of the trunk road specified in Schedule 2 to this Notice.

It is expected that the prohibitions will operate intermittently between 03:00 hours and 19:00 hours on 3 June 2018 for periods not exceeding 20 minutes at any one time.

The 30 mph speed limit restriction will remain in force throughout the day. The organiser will reopen the road to traffic earlier if filming is completed before the end of the prohibition period.

Although the Order is only expected to operate during the date specified above, it will remain valid for a maximum period of one month, as a contingency, should the filming need to be rescheduled due to unforeseen circumstances.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (Select: Legislation/Subordinate Legislation/Local

statudol lleol/Gorchmynion traffig dros dro/2018).

Statutory Instruments/Temporary Traffic Orders/2018).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

M D BURNELL
Transport
Welsh Government

ATODLEN 1

SCHEDULE 1

Gwahardd cerbydau, beicwyr a cherddwyr dros dro a llwybr arall

Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists and Pedestrians and alternative route

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan yr Antelope yng Ngwynedd hyd at ei chyffordd â Chylchfan yr Anglesey Arms yn Ynys Môn.

The length of the trunk road that extends from its junction with Antelope Roundabout in Gwynedd to its junction with Anglesey Arms Roundabout in Anglesey.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r de yn ystod y cyfnod cau fydd mynd ar yr A5 tua'r gorllewin i Gyffordd 8A yr A55, croesi Pont Britannia i Gyffordd 9 ac yna mynd ar yr A487 i Gylchfan yr Antelope. I'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gogledd.

The alternative route for southbound vehicles during the closures will be via the A5 westbound to Junction 8A of the A55, then across the Britannia Bridge to Junction 9 and then the A487 to Antelope Roundabout. The alternative route for northbound vehicles will be vice versa.

ATODLEN 2

SCHEDULE 2

Terfyn Cyflymder 30 mya Dros Dro

Temporary 30 mph Speed Limit

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan yr Antelope hyd at leoliad yr arwyddion sy'n dangos diwedd y parth 30 mya presennol ar ben deheuol Pont Menai yng Ngwynedd.

The length of the trunk road that extends from its junction with Antelope Roundabout to the location of the existing 30 mph terminal signs at the southern end of the Menai Suspension Bridge in Gwynedd.